Rhybudd o Ymestyn Gorchymyn Gwahardd Cerddwyr Dros Dro
Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 – Adran 14
Gorchymyn (Llwybrau Cyhoeddus Rhifau 25 a 26 yng Nghymunedau Nercwys a Threuddyn) (Rhybudd o Orchymyn Cerddwyr Dros Dro) 2019

Daeth y Gorchymyn uchod i rym ar 4 Mawrth 2019 am gyfnod o 6 mis, hyd at ac yn cynnwys 3 Medi 2019 (cafodd ei ymestyn yn dilyn hynny hyd at ac yn cynnwys 3 Medi 2021).

Rhoddir rhybudd drwy hyn fod y Gorchymyn uchod a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint wedi'i ymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru hyd at ac yn cynnwys 3 Mawrth 2022.

Effaith y Gorchymyn yw na fydd unrhyw un yn teithio ar hyd:-

1. Y rhan o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif. 26 yng Nghymuned Treuddyn o'i gyffordd â Mynydd Du / Black Mountain yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol (NGR) 32332 35763 i'w gyffordd â Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif. 25 yng Nghymuned Nercwys yn NGR 32333 358816

2. Y rhan o Lwybr Cyhoeddus Rhif. 25 yng nghymuned Nercwys o'i gyffordd â Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif. 26 yng Nghymuned Treuddyn yn NGR 32333 35716 i'w gyffordd â Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif. 26 yng Nghymuned Nercwys yn NGR 32338 38530.

Y rheswm dros gau'r llwybrau yw gwarchod y cyhoedd yn dilyn tirlithriad sy'n effeithio'r llwybr troed.

Nid oes llwybr arall ar gael.

Dyddiedig 27 Awst 2021

Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
AB/031874